



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg
University Health Board

Dogfen Drafod

ADLEOLIAD ARFAETHEDIG CANOLFAN IECHYD LLANSAWEL I GANOLFAN GOFAL SYLFAENOL NEWYDD AR Y CEIAU, LLANSAWEL

**Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
Meddygon Teulu Llansawel**



Mawrth 2012

1) Cyflwyniad

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe yn adolygu'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau i'n cleifion yn barhaus, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaethau o'r safon uchaf a'r rhai mwyaf diogel y gallwn ni, o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae'r ddogfen drafod hon yn rhan o'r broses barhaus honno. Mae'n amlinellu cynnig Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM a Meddygon Teulu Llansawel i ddisodli Canolfan Iechyd bresennol Llansawel a chael Canolfan Gofal Sylfaenol fodern, newydd sbon, wedi'i hadeiladu at y pwrpas i gymryd ei lle.

Y bwriad yw i drosglwyddo gwasanaethau Meddygon Teulu i'r Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd a hefyd i ddarparu rhai gwasanaethau newydd, a fydd yn gwella'r lefel o ofal a gynigir i gleifion yn yr ardal. Rydym eisiau clywed eich barn ac felly rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â'r cynigion hyn o'r 19^{eg} o Fawrth hyd y 27^{ain} o Ebrill 2012.

Byddwn yn trafod y cynlluniau hyn, a'ch barn chi ohonynt, gyda Chyngor Iechyd Cymuned ABM cyn penderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen â gwasanaethau gofal sylfaenol yn ardal Llansawel.

2) Pam bod angen adeilad newydd arnom?



Adeiladwyd y Ganolfan Iechyd bresennol ym 1977 ac fe'i dyluniwyd yn wreiddiol i ddarparu gwasanaethau iechyd i 8,000 o gleifion. Pymtheng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae dwywaith cymaint â hyn o gleifion bellach wedi'u cofrestru gyda'r ddau bractis. Dros y cyfnod hwnnw mae'r mathau o wasanaethau mae Meddygon Teulu yn eu cynnig hefyd wedi newid yn sylweddol.

Mae'r adeilad bellach yn rhy fach, nid yw wedi ei ddylunio ar gyfer anghenion gofal iechyd modern, ac nid yw'n gallu darparu ar gyfer y galw ychwanegol.

Ni ellir moderneiddio nac ehangu'r adeilad yn ddigonol i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd sy'n bodloni'r safonau a'r hygyrchedd yr ydym ni'n eu disgwyl, ac y mae gan gleifion hawl i'w derbyn.

Rydym eisiau darparu safle newydd, modern, addas i'w bwrpas a all ddarparu ystod ehangach o wasanaethau o safon uchel i gleifion yn Llansawel.

3) Beth mae hyn yn ei olygu i gleifion?

Mae trafodaethau ynglŷn â sut y dylid darparu'r gwasanaethau gofal sylfaenol (Meddygon Teulu) o'r safon uchaf i gleifion yn Llansawel, nawr ac yn y dyfodol, wedi bod yn mynd ymlaen ers nifer o flynyddoedd. Credwn mai'r ateb gorau yw i ddarparu gwasanaeth cynaliadwy a modern i'n cleifion mewn cyfleusterau o safon uchel.

Os yw'r datblygiad newydd yn Llansawel yn mynd yn ei flaen, bydd yn cymryd y materion canlynol i ystyriaeth:

- Anghenion gofal iechyd pob claf yn yr ardal
- Pwysigrwydd cyflenwi'r safon uchaf o ofal mewn amgylchedd cyffyrddus, modern a diogel sy'n addas i'w bwrpas
- Cynnig gwasanaethau cyflymach a mwy hygyrch i gleifion yn agosach at eu cartrefi eu hunain
- Gofynion mynediad pob claf, yn enwedig yr henoed, pobl anabl a'r rhai â theuluoedd ifanc
- Y nifer o gleifion sy'n cael mynediad at y meddygfeydd nawr ac yn y dyfodol
- Urddas, preifatrwydd a chyfrinachedd pob claf wrth siarad â meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill
- Cyfleusterau parcio a gollwng sydd eu hangen ar gleifion
- Defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau gan gynnwys lle, offer a gweithwyr

4) Ble fydd y feddygfa newydd yn cael ei chodi?

Y cynnig yw i adeiladu'r Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd ar Y Ceiau. Mae'r safle drws nesaf i Swyddfeydd Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot ac fe fydd yn rhan o ddatblygiad newydd a fydd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau eraill gan gynnwys:

- ❖ Fferyllfa
- ❖ Meithrinfa
- ❖ Adeiladau Swyddfa i alluogi busnesau newydd i symud i mewn i'r ardal

5) Pam mae'n cael ei hadeiladu ar y safle hwn?

Dros yr 8 mlynedd diwethaf, mae'r ddau bractis a'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ceisio dod o hyd i safle a fyddai'n addas i'r feddygfa newydd. Fe fu'n anodd iawn i ddod o hyd ddarn o dir sydd ar gael ac yn ddigon mawr i roi lle i'r adeilad newydd a'r llefydd parcio angenrheidiol.

Fodd bynnag, trwy gydweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a dod yn rhan o'r datblygiad newydd ar Y Ceiau, gallwn nawr adeiladu'r ganolfan newydd gyda'r ystod o gyfleusterau sydd eu hangen, yn y dyfodol agos.

6) Beth am barcio a thrafnidiaeth?

Bydd maes parcio yn cael ei neilltuo i gleifion sy'n ymweld â'r Ganolfan Gofal Sylfaenol, ac fe fydd hefyd yn cynnwys llefydd parcio hygyrch/anabl a chyfleusterau gollwng.

Mae hefyd safle bws ar y brif ffordd ger y ganolfan newydd â llwybr troed yn uniongyrchol at yr adeilad. Mae'r gwasanaeth bws X4 yn rhedeg bob awr o Gastell-nedd/Port Talbot i Ben-y-bont ar Ogwr.

Mae'n gweithredu o Groesffordd y Porthdy yn Llansawel, gan ddechrau am 0813 a chyrraedd yn y Ceiau am 0819, ac yna bob awr trwy'r dydd; mae'r daith olaf yn gadael Croesffordd y Porthdy am 1713. Rydym hefyd yn gweithio

gyda First Cymru i drafod y posibilrwydd o gael y gwasanaeth hwn i redeg yn amlach.

7) A oes cynlluniau o'r Ganolfan arfaethedig y gallaf i eu gweld?

Oes. Rydym wrthi'n paratoi i gynnal Diwrnod Gwybodaeth lle y byddwch yn cael cyfle i edrych ar y cynlluniau a baratowyd ar gyfer y Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd a'r datblygiad yn ei gyfanrwydd.

Byddwch hefyd yn cael cyfle i siarad ag aelodau o'r Practisau, staff y Bwrdd Iechyd a'r tîm datblygu. Yn ogystal â hyn, mae nifer o Ganolfannau Gofal Sylfaenol a adeiladwyd yn benodol at y pwrpas eisoes wedi cael eu codi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, neu'n cael eu codi ar hyn o bryd, o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM.

Dyma rai enghreifftiau (heb fod yn gynhwysfawr) o ganolfannau newydd eraill yn yr ardal i roi syniad i chi o'r math o ddatblygiadau sydd bellach ar gael, neu a fydd ar gael cyn hir, at ddefnydd cleifion mewn rhannau eraill o ardal y Bwrdd Iechyd:

Canolfan Adnoddau Port Talbot



Canolfan Iechyd Clydach



Canolfan Gofal Sylfaenol Dulais



Canolfan Gofal Sylfaenol newydd y 'Beacon' yn SA1 (yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd)



Mae'r Diwrnod Gwybodaeth ar gyfer Canolfan Iechyd arfaethedig Llansawel wedi cael ei drefnu ar gyfer yr 11^{eg} o Ebrill yng Nghanolfan Gymunedol Llansawel ac fe fydd yn rhedeg o 11.00 y bore hyd 7.00 yr hwyr er mwyn galluogi cymaint o bobl â phosib i fynychu a chael atebion i'w cwestiynau.

Bydd posterï'n cael eu harddangos yn y feddygfa a manau cymunedol a chyhoeddus eraill yn ardal Llansawel yn agosach at y dyddiad er mwyn eich hatgoffa. Byddwn yn cofnodi pob sylw/barn gan gleifion ac eraill sydd â diddordeb ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cymryd i ystyriaeth cyn i unrhyw gynlluniau gael eu cwblhau'n derfynol.

Rhowch wybod i ni am eich barn

Gallwch ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl ynglŷn â'r cynigion hyn trwy:

- Fynychu'r Diwrnod Gwybodaeth a ddisgrifir uchod
- Cwblhau'r holiadur i gleifion – byddwn yn sicrhau ei fod ar gael yn ardaloedd aros practisau Dr Lethbridge a Dr Muir

- Anfon neges e-bost at Sendusyourviews.abm@wales.nhs.uk gyda'r teitl "Llansawel"
- Ysgrifennu at:

**Hilary Dover
Cyfarwyddwr yr Ardal
Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM
Ardal Castell-nedd Port Talbot
Suite A
Tŷ Britannic
Llandarcy
Castell-nedd SA10 6JQ**

Byddwn yn sicrhau bod yr holl sylwadau a wneir yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ystyried y ffordd orau o symud ymlaen â gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer ardal Llansawel.